Cyngor Cymuned Llandwrog

Polisi Cymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfodddol

Isod dangosir telerau ac amodau o roi cymorth ariannol i fudiadau lleol **sydd ddim yn gwneud elw.**

1 Rhagarweiniad	• Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r meini prawf a'r weithdrefn ar gyfer dosbarthu rhoddion gan y Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nod y polisi yw sicrhau bod cyfraniadau ariannol yn cael eu dyrannu'n deg, yn dryloyw ac er budd uniongyrchol i'r gymuned.

2 **Yr Hawl i Weithredu**	• Mae Adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor yn ystyried y bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohoni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Mae Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gynghorau Cymuned wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol.

3 **Bwriad Cyngor Cymuned**	• Bwriad y Cyngor yw cefnogi cymuned fywiog • Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi y gwerth sydd yn y gwaith mae'r sector wirfoddol yn ei wneud yn y gymuned. • Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth ariannol i fudiadau cymunedol sydd ddim yn gwneud elw, ac sydd yn gweithio er lles trigolion cymuned Llandwrog gyda'r bwriad o wella'r dewis o wasanaethau neu weithgareddau yn y gymuned

4 **Amserlen Ymgeisio**	• Rhaid cyflwyno cais erbyn 31 Ionawr • Bydd y cyfarfod dyfarnu blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Chwefror. • Bydd y Cyngor yn cyrraedd ei benderfyniad yn ei gyfarfod llawn ym mis Chwefror. • Fodd bynnag, gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, ystyried ceisiadau hwyr os bernir eu bod yn ymwneud â: - *Fentrau/gweithgareddau sy'n anelu at daclo costau byw, yn benodol cadw'n gynnes neu gynlluniau bwyd; neu* - *Ddigwyddiad neu ddathliad un-tro sydd o fudd i'r gymuned.*

5 Iaith	• Bydd disgwyl i bob Grŵp neu fudiad sydd yn ymgeisio am rodd fod yn hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Gymreig.

6 **Beth gall y rhodd ei ddefnyddio tuag at**	• Prosiect cyfalaf • Costau rhedeg

7 **Cymhwysedd a Meini Prawf**	• Cyfyngir ystyriaeth i un cais yn unig gan bob mudiad neu sefydliad ym mhob blwyddyn ariannol. Serch hynny, gall y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, wneud eithriad mewn perthynas â phrosiectau penodol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:- - *Fentrau neu gweithgerddau sy'n anelu at daclo costau byw; yn benodol cadw'n gynnes neu cynlluniau bwyd.* - *Digwyddiadau neu ddathliadau un-tro sydd o fudd i'r gymuned.* • Bydd y Cyngor yn rhoi cyfraniad o symiau gwahanol • Rhaid ateb bob cwestiwn ar y ffurflen gais yn gywir ac yn gyflawn i greu darlun cynhwysfawr o waith a phwrpas y mudiad yn y gymuned.

8 **Gwaharddiadau Cyffredinol**	• Disgwylir i bob cais gael ei gyflwyno gan fudiad neu sefydliad cydnabyddedig, gyda threfniadau ariannol a chyfrif banc yn enw'r mudiad • Ni roddir ystyriaeth i unrhyw gais nad yw hefo cyfrif banc yn enw'r mudiad ei hun neu'n cael ei redeg dan enw cwmni neu unigolyn

9 **Pwy a Beth sydd ddim yn gymwys?**	• Unigolion (e.e. chwaraewyr sydd yn chwilio am noddwyr) • I ganghennau y gellir eu hariannu drwy eu prif sefydliad; • Mudiadau neu gwmnïau cyfyngedig sy'n gweithredu er elw neu â'r bwriad o wneud elw, ac eithrio'r rhai sydd wedi eu sefydlu'n lleol (oddifewn y gymuned) ac sy'n darparu gweithgareddau cymunedol, neu oni bai mewn amgylchiadau eithriadol sy'n dod â budd cymunedol sylweddol. • Prosiectau sydd â naws gwleidyddol neu grefyddol iddynt; • Prosiectau sydd yn gwahaniaethu ar sail oed, lliw, amhariad, statws priodasol, ffordd o fyw a diwylliant, cenedligrwydd, tras, rhyw'r person, rhywioldeb, neu ar sail rhesymau economaidd neu statws cymdeithasol. • Gwasanaethau a'i hariannir gan gyllidebau statudol; • Fe all y Cyngor wrthod cymorth ariannol i fudiadau a ddylid cael eu cyllido o ffynonellau eraill • Adeiladau sydd ddim wedi eu hyswirio • Costau cynnal a chadw neu drwsio offer (oni bai am amgylchiad eithriadol) • Cyflog, costau teithio neu gostau gweinyddiaeth safonol • Lletygarwch

10 **Sut i geisio am gymorth ariannol?** ***Rhaid darparu'r canlynol***	• Ffurflen gais wedi ei chwblhau ac sydd ar gael gan Reolwr y Cyngor neu ar wefan y Cyngor www.cyngorcymunedllandwrog.cymru • Cyfrifon a Mantolen Ariannol cyfredol wedi ei archwilio • Datganiad Banc diweddaraf • Fe all y Cyngor ofyn am fwy o fanylion i gefnogi eich cais. • Bydd disgwyl fod pob ymgeisydd wedi darllen a chytuno i'r gofyniadau a nodir yn y polisi hwn • Os nad yw'r mudiad yn gallu parhau a'r prosiect yna bydd rhaid dychwelyd yr arian yn ol i'r Cyngor. • Fe all y Cyngor ofyn am dystiolaeth fod yr arian wedi ei wario yn unol â'r pwrpas ac fe all y Cyngor ofyn yr arian yn ôl os nad yw'r dystiolaeth yn cyrraedd. • Mae rhaid i'r rhodd gael ei ddefnyddio at y pwrpas y gofynnwyd amdano. **Amod ychwanegol:** Fel amod o'r grant, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddarparu llun i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Gall hyn fod yn lun o'r prosiect, yr adeilad, neu'r pwyllgor / gwirfoddolwyr—pa un bynnag sydd fwyaf perthnasol. Bwriedir defnyddio'r lluniau i amlygu'r cymorth a roddwyd, tynnu sylw at eich gwaith, neu hyrwyddo gweithgareddau. *Sylwer:* Gofynnir yn garedig i chi sicrhau bod caniatâd priodol wedi'i roi cyn rhannu lluniau o unigolion.

11 **Penderfyniadau ar Geisiadau**	• Bydd pob cais yn cael ei asesu gan y Cyngor yn unol â'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn. • Cedwir hawl gan y Cyngor i wrthod unrhyw gais nad yw'n cydymffurfio â'r polisi hwn neu nad yw'n cael ei ystyried yn briodol. • Bydd penderfyniadau'r Cyngor yn derfynol.

12 Adolygu'r Polisi	Adolygir y polisi hwn yn gyfnodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn deg ac yn effeithiol.

Adolygwyd a'i Fabwysiadwyd Cyngor Llawn 20 Ebrill 2026